Teitl:	**Uwch-ymarferydd Gwaith Cymdeithasol (Tîm Lleoli)**
Lleoliad:	**Gweithio Ystwyth / Canolfan Adnoddau i Blant, Heol Beaufort, Glynebwy**
Cyfarwyddiaeth:	**Gwasanaethau Cymdeithasol**
Rhif y Swydd:	**BG03460**
Cyflog:	**Gradd 9, £40,478 – £44,539 y flwyddyn**
Oriau:	**37 awr yr wythnos**
Contract:	**Secondiad / cyfnod penodol tan 31.3.24 gydag opsiwn i barhau yn y swydd tan 31.3.25**

Crynodeb o'r Swydd

Rydym yn chwilio am uwch-ymarferydd gwaith cymdeithasol creadigol a llawn cymhelliant i ymuno â'n Tîm Lleoli am gyfnod penodol hyd at 31.10.2024, ar gontract tymor penodol neu fel rhan o gyfle secondiad.

Bydd y Tîm Lleoli yn cynnig cyfle i chi weithio gyda gofalwyr maeth cymeradwy, personau cysylltiedig a'r rhai sy'n gwneud cais am Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig. Mae'r swydd yn cynnig y cyfle i ddatblygu eich sgiliau, gwybodaeth ac ymarfer mewn perthynas â'r gwasanaeth, gan gynnwys personau cysylltiedig ac asesiadau Ffurflen F, darparu hyfforddiant a goruchwylio gofalwyr maeth. Mae cyfle i ddysgu o brofiadau'r tîm, sydd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o'r ansawdd uchaf i deuluoedd maethu Blaenau Gwent.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan uwch-ymarferwyr profiadol a gweithwyr cymdeithasol cymwysedig sy'n teimlo'n barod i gymryd y camau nesaf yn eu gyrfaoedd.

Mae'r swydd hon yn hysbyseb allanol sy'n agored i weithwyr parhaol a chyfnod penodol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a'r rhai a gyflogir yn allanol.

Hysbyseb Lawn

Mae'r prif gyfrifoldebau'n cynnwys darparu arweiniad, cymorth ac arweinyddiaeth i weithwyr cymdeithasol cymwysedig a gweithwyr cymorth sy'n ymwneud â recriwtio, asesu, hyfforddi a chefnogi gofalwyr maeth a phersonau cysylltiedig. Byddwch yn ennill sgiliau mewn darparu goruchwyliaeth ffurfiol ac anffurfiol i aelodau'r tîm dan arweiniad rheolwr y tîm.

Ochr yn ochr â chefnogi aelodau staff, byddwch yn gyfrifol am reoli llwyth achosion llai o achosion, sydd yn aml yn gymhleth, lle byddwch yn gyfrifol am asesu gofalwyr posibl a darparu cymorth wedi'i dargedu i ofalwyr.

Os hoffech drafod y cyfleoedd hyn yn anffurfiol, cysylltwch â rheolwr y tîm, Kevin Munro, ar 01495 355472. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

I fod yn gymwys ar gyfer y rôl hon, rhaid i bob ymgeisydd feddu ar radd (neu debyg) mewn gwaith cymdeithasol a bod wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae profiad gofal plant sylweddol ar ôl cymhwyso o fewn tîm gwasanaethau plant statudol hefyd yn hanfodol ac mae profiad o oruchwylio staff a/neu fyfyrwyr yn ddymunol.

Cynhelir sgrinio cyn-gyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd lenwi cais am ddatgelu cofnodion troseddol.

Dyddiad Cau: 16.3.23

Dyddiad y Cyfweliad: tbc